Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** | |
| **Dyddiad:** | **13 Ionawr 2016** | |
| **Amser:** | **10:00 – 10:55** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Prif Arolygydd Ross Evans (RE)<br>Lynne Davies, Uned Cymorth Busnes (LD)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/01/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 536** | **Cwblhau adolygiad o flwyddyn gyntaf y rhaglen brysbennu iechyd meddwl a'i adrodd i'r Bwrdd Plismona** | **Ar waith** |
| **PB 537** | **Yr Heddlu i roi diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu InPhase** | **Ar waith** |
| **PB 538** | **Y PG i ystyried pryderon arfau saethu a godwyd gan y CHTh a rhoi diweddariad erbyn diwedd Ionawr** | **Ar waith** |
| **PB 539** | **Yr Heddlu i ddarparu cymhariaeth o weithgarwch porthladdoedd HDP â phorthladdoedd eraill y DU, gan gynnwys nifer y teithwyr, peryglon, patrymau teithio a pherygl sefydliadol** | **Ar waith – erbyn diwedd Ionawr** |
| **PB 540** | **Y PSA a'r CC i drafod prosiectau posibl i'w hariannu trwy'r arian Diogelwch y Ffyrdd sy'n weddill** | **Cwblhawyd** |
| **PB 541** | **Y CA i sefydlu pa un ai a fu diddordeb mewn secondiadau i Gwmni TGCh yr Heddlu** | **Cwblhawyd** |
| **PB 542** | **Cyflwyno opsiynau ar gyfer cyfleoedd cydweithio posibl i'r CHTh erbyn mis Mai** | **Ar waith** |
| **PB 543** | **Rhyddhau deunydd cyhoeddusrwydd mewn perthynas â'r uned seiberdroseddu newydd, a'r CHTh i gynnal ymweliad** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 544** | **Y CA i ddarparu asesiad ariannol a chynllun ar gyfer yr Uned Seiberdroseddu am y dyfodol i'r CHTh** | **Ar waith – erbyn diwedd Ionawr** |
| **PB 545** | **HM-H i gysylltu â'r corff perthnasol er mwyn cefnogi'r ymgyrch Dewis Doeth** | **Cwblhawyd** |
| **PB 546** | **Yr Heddlu i ystyried system i ddod yn gyfrwng ar gyfer derbyn adroddiadau ynghylch gofynion cynnal bwiau achub a'u pasio ymlaen** | **Cwblhawyd** |
| **PB 547** | **Yr Heddlu i roi enw cyswllt i CB ar gyfer CHThMF i drafod y gwersi a ddysgwyd yn sgîl cyflwyno'r system gwarchod cymdogaeth newydd** | **Cwblhawyd** |
| **PB 548** | **HM-H i ddatblygu protocol ar y cyd ar gyfer yr Heddlu a SCHTh ar gyfer yr etholiadau CHTh** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 13/01/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 090** | **HDP i barhau i weinyddu'r cynllun ailhyfforddi gyrwyr am 12 mis arall** | **CA/ PSA** |

Agorodd y CHTh y cyfarfod gan gytuno i newid yn nhrefn y cyfarfod i ganiatáu i swyddogion sy'n bresennol fynd yn ôl i'w dyletswyddau.

PB 541 - Dywedodd y CA bod diddordeb wedi'i ddangos yn y secondiadau posibl, a bod yr Heddlu'n cyfathrebu â chwmni TGCh yr Heddlu mewn perthynas â'r mater.

PB 546 – Cadarnhaodd y PG y byddai'r Heddlu'n cefnogi'r awgrym ar gyfer y rhif ffôn 101, sef y byddai aelodau o'r cyhoedd yn ei ddefnyddio i riportio difrod i fwiau achub. Ar ôl cytuno ar system ar gyfer ymdrin â galwadau o'r fath, cadarnhawyd y byddai hyn yn cael ei rannu â'r CHTh.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r etholiad CHTh sydd ar ddod a digwyddiadau ymgyfarwyddo i ymgeiswyr. Gofynnodd y CHTh am gael gwybod am ddyddiadau er mwyn ateb unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd.

**Canlyniadau adolygiadau o becynnau prawf cyffuriau**

Darparodd RE drosolwg o ganlyniadau'r treial prawf cyffuriau. Mae swyddogion o'r Uned Plismona'r Ffyrdd wedi'u hyfforddi i gynnal profion amhariad wrth ochr y ffordd ac adnabod arwyddion o ddefnydd cyffuriau posibl. Treialodd yr Uned Plismona'r Ffyrdd 100

o unedau prawf sgrinio canabis a chocên defnydd sengl. Darparodd 45% o'r unigolion a brofwyd ddarlleniad positif. Cafodd 200 uned arall eu caffael, sydd wedi arwain at gyfradd canlyniad cadarnhaol o 40% hyd yn hyn. Trafodwyd bod y prawf gwaed tystiolaethol sydd angen ar ôl canlyniad prawf sgrinio cadarnhaol llawer drutach na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer alcohol. Esboniodd RE bod y prawf cyffuriau'n fwy soffistigedig a manwl na phrawf alcohol ac ni ellir trafod costau ar hyn o bryd oherwydd cytundebau. Holodd y CHTh sawl canlyniad cadarnhaol oedd wedi arwain at unigolion yn pledio'n euog. Dywedodd RE bod y rhan fwyaf yn cyfaddef i'r drosedd yn ôl adborth cychwynnol, fodd bynnag, nid oedd yr ystadegau llawn ar gael ar hyn o bryd. Roedd y PG yn ystyried bod y peilot yn llwyddiannus. Holodd DGHTh os oedd oedi tebyg o ran amser yn cael ei brofi o ran cael y profion gwaed, fel sy'n digwydd yn aml gyda phrofion alcohol. Er nad oedd profion ochr ffordd yn ddilys fel tystiolaeth ar gyfer y llys, dywedwyd eu bod nhw'n arf sgrinio defnyddiol i hysbysu penderfyniadau i barhau i gael profion gwaed. Gofynnodd y PSA sut oedd nifer y profion gwaed sy'n cael eu cynnal yn awr yn amrywio ers cyflwyno'r profion sgrinio. Dywedodd RE bod data ar gael o haf 2015 pan gyflwynwyd y ddeddfwriaeth. Derbyniodd y CHTh y diweddariad a'r argymhellion a ddarparwyd, ond gofynnodd am i'r gyfradd pledion euog ac effeithlonrwydd y pecynnau o ran cost i gael eu monitro.

Gadawodd RE y cyfarfod.

**Hap samplo electronig y Panel Preswylwyr**

Mynychodd LD y cyfarfod i drafod yr wybodaeth a geisiwyd ar gyfer ei samplo gan y Panel Preswylwyr. Eglurodd y CHTh a'r PG eu bod nhw eisiau i'r Panel adolygu gohebiaeth a ddarparwyd i unigolion ar ôl trosglwyddo eu gwybodaeth i ddyfeisiau symudol, a gwneud argymhellion mewn perthynas â gwelliannau. Esboniodd LD fod set o feini prawf yn cael eu defnyddio i gadarnhau a dilysu dogfennau cyn eu rhyddhau. Trafodwyd bod angen nodi pa wybodaeth sydd angen ei chynnwys a beth sydd wedi'i phoblogi'n awtomatig gan swyddogion drwy eu dyfeisiau symudol. Byddai LD yn ymgysylltu â SCHTh i ddarparu hap sampl priodol cyn cyfarfod y Panel Preswylwyr yn ddiweddarach y mis hwnnw.

Gadawodd LD y cyfarfod.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Dywedodd y PG fod archwiliad mewnol o'r Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol (SCTC) wedi'i gynnal cyn ymarfer hap samplo AHEM sydd ar fin digwydd. Roedd cydymffurfiaeth â'r System Olrhain Gweinyddu Achosion (CATS) wedi gwella o 14% y llynedd i 90% eleni, ac yn gyffredinol, roedd cydymffurfiaeth wedi codi o 68% i 90%. Llongyfarchodd y CHTh y PG ar y gwelliannau. Dywedodd y PG fod ymgyrchoedd Border a Sailfin ym Mhowys wedi arwain at nifer o arestiadau, gan gynnwys unigolyn a oedd yn

eisiau yn yr Alban. Roedd ymgyrch arfau saethu yn Sir Benfro wedi arwain at unigolyn agored i niwed yn ildio ei arf saethu a byddai ei drwydded yn cael ei dynnu yn ôl. Roedd pedwar unigolyn wedi'u harestio ym mhorthladd Abergwaun ar ôl canfod cyffuriau yn eu car. Roedd unigolyn wedi'i arestio yn dilyn ymosodiad â gwydr ym Mhenfro.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Dywedodd y CHTh y byddai'r arolwg troseddau busnes yn fyw yn ddiweddarach yr wythnos honno. Roedd Gogledd Cymru wedi tynnu eu cysylltiad yn ôl gan nad oedd yr amserlenni yn addas ar eu cyfer. Byddai rhaglen o ymchwil mewn perthynas â pherfformiad yn cael ei chwblhau cyn mis Ebrill. Roedd yr arf rheoli perfformiad a busnes InPhase bellach yn weithredol ledled SCHTh. Y manteision yw mynediad at ddata cymharol byw. Roedd y Cyfarwyddwr Comisiynu'n symud ymlaen â gwaith ar brosiectau dargyfeirio ieuenctid. Byddai'r CHTh yn cwrdd â chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru'n ddiweddarach yr wythnos honno. Ar hyn o bryd, roedd y PSA yn gweithio ar y strategaeth rheoli trysorlys.

**Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau**

Dywedodd y CA fod y gweithgarwch gwella busnes yn mynd rhagddo'n dda ledled y sefydliad, gyda nifer o brosiectau'n cyflwyno canlyniadau da. Un enghraifft oedd ail-ddylunio prosesau o fewn prosesu traffig a oedd wedi arwain at welliant yn y r ôl-groniad o 14 wythnos i 7.

**Materion a godwyd gan y Comisiynydd Plant**

Rhoddodd y DGHTh fanylion am gwestiynau a godwyd yn y cyfarfod chwarterol gyda'r Comisiynydd Plant mewn perthynas ag achosion secstio a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant. Gofynnodd y DGHTh pa un ai a oedd plant, fel troseddwyr neu ddioddefwyr (neu'r ddau) yn derbyn canlyniadau datgeladwy a allai ymddangos ar wiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y dyfodol, a pha un ai a oedd polisi Cymru gyfan ar y mater. Er nad oedd polisi Cymru gyfan mewn grym, dywedodd y PG fod nifer o heddluoedd yn ymdrin ag achosion o'r fath mewn modd tebyg. Rhoddodd y PG esboniad manwl ynghylch sut y gwneir penderfyniad i ymchwilio. Pe bai canlyniadau 10 neu 21 yn cael eu gweithredu, byddai'r plentyn yn cael ei enwi fel unigolyn a ddrwgdybir yn system yr heddlu a gallai fod yn destun gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pe bai'r troseddwr eisiau gweithio gyda phlant neu bobl sy'n agored i niwed a byddai angen gwiriad datgelu uwch. Mewn achosion 'secstio', byddai hyn ond yn cael ei datgelu pe bai'r prif swyddog yn credu bod y wybodaeth yn 'berthnasol' ac y 'dylai' gael ei datgelu. Hefyd, gofynnodd y DGHTh beth oedd polisi HDP mewn perthynas ag atafaelu, dychwelyd neu gael gwared ar ffonau plant. Dywedodd y PG mai polisi HDP oedd dychwelyd ffonau

yn yr achosion hyn lle bo hynny'n bosibl, fel arfer ar ôl ceisio caniatâd rhieni i ddileu delwedd yn llwyr. Byddai'r Heddlu'n ceisio dealltwriaeth rhiant wedi'i arwyddo y gellir adennill y ddelwedd yn y dyfodol drwy ddulliau fforensig. Lle nad yw'n bosibl dileu delwedd, byddai HDP yn ceisio rhoi'r ffôn y tu hwnt i ddefnydd. Dywedodd y DGHTh y byddai'n ymateb i'r Comisiynydd Plant ag atebion y PG.

**Cam Gweithredu: PG i ateb cwestiynau a godwyd gan y Comisiynydd Plant mewn perthynas ag achosion secstio, a DGHTh i ymateb i'r Comisiynydd Plant**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Ailhyfforddi Gyrwyr***

Yn dilyn trafodaethau mewn cyfarfod cynharach, cytunodd y CHTh y byddai'r Heddlu'n parhau i weinyddu'r cynllun ailhyfforddi gyrwyr am 12 mis arall.

**Penderfyniad: HDP i barhau i weinyddu'r cynllun ailhyfforddi gyrwyr am 12 mis arall**

***Digwyddiad Ymgysylltu Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Hywel Dda***

Dygodd DGHTh y digwyddiad i sylw'r Heddlu gan awgrymu bod cynrychiolydd yn mynychu'r digwyddiad i godi materion plismona. Dywedodd DGTh ei fod wedi bod yn lobio am fynediad 24 awr i wasanaethau iechyd meddwl a gwelyau iechyd meddwl ym mhob awdurdod lleol yn Nyfed. Dywedodd y PG fod cynrychiolydd wedi bod mewn cysylltiad â Hywel Dda a bod ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad wedi'i gyflwyno. Gofynnodd y CHTh am gopi o'r ymateb.

**Cam Gweithredu: Darparu ymateb i ymgynghoriad trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl Hywel Dda i'r CHTh**

Dywedodd HM-H fod cyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill yn syrthio o fewn y cyfnod o enciliad ac felly byddai'n cael ei ganslo. Cytunwyd y byddai blaenoriaeth 3 yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Mawrth yn ogystal â blaenoriaeth 1.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 13/01/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 549** | **PG i ateb cwestiynau a godwyd gan y Comisiynydd Plant mewn perthynas ag achosion secstio, a DGHTh i ymateb i'r Comisiynydd Plant** | **DGHTh** |
| **PB 550** | **Darparu ymateb i ymgynghoriad trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl Hywel Dda i'r CHTh** | **PG** |